

## Ed Humpherson | Cyfarwyddwr Cyffredinol Rheoleiddio

Dai Lloyd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

09 Rhagfyr 2020

Annwyl Dr Lloyd,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i alwad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad sydd wrthi'n ystyried *effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.*

Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yw cangen reoleiddio annibynnol Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Ni sy'n gwneud y gwaith rheoleiddio annibynnol ar yr holl ystadegau swyddogol a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y rhai yn y gwledydd datganoledig a'r GIG. Seilir ein gwaith rheoleiddio ar Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Ni sy'n pennu'r safonau y mae'n rhaid i ystadegau swyddogol eu bodloni, a hynny drwy'r Cod Ymarfer Ystadegau statudol. Rydym yn sicrhau bod cynhyrchwyr ystadegau swyddogol yn cynnal y safonau hyn drwy gynnal asesiadau yn erbyn y Cod. Rhoddir statws Ystadegau Gwladol i'r rhai sy'n bodloni'r safonau, sy'n dangos eu bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran ymddiriedaeth, ansawdd a gwerth. Rydym hefyd yn adrodd yn gyhoeddus ar faterion sy'n ymwneud â'r system gyfan ac ar y ffordd y mae ystadegau'n cael eu defnyddio, gan ddathlu pan fydd y safonau'n cael eu cynnal a herio'n gyhoeddus pan na fyddant.

Dylai ystadegau a gyhoeddir gan gyrff y sector cyhoeddus gael eu cynhyrchu mewn ffordd ddibynadwy, dylent fod o ansawdd uchel, a dylent roi gwerth drwy roi atebion i gwestiynau pwysig y gymdeithas. Fel rheoleidiwr ystadegau swyddogol yn y Deyrnas Unedig, ein barn ni yw mai data o safon yw'r sylfaen ar gyfer datblygu ystadegau sy'n ateb buddiannau'r cyhoedd.

Mae data a thystiolaeth ddibynadwy yn hanfodol ar gyfer ategu polisiau a phenderfyniadau ynglŷn â darparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n diddordeb ni yn yr ymchwiliad hwn yn ymwneud yn bennaf â sut mae'r pandemig wedi effeithio ar waith i ddarparu data iechyd a gofal cymdeithasol, a sut y bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar wasanaethau nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu rhai o'r heriau sy'n cael eu hwynebu yng Nghymru wrth ymateb i'r pandemig Covid-19 y gallwn ninnau uniaethu â nhw o'n gwaith ni'n hunain:

- Data i ategu penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19;
- Effaith y pandemig ar iechyd;
- Effaith y pandemig ar ofal cymdeithasol.

Rwy'n edrych ymlaen at weld casgliadau'ch ymchwiliad. Mae croeso ichi gysylltu â mi os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir,



Ed Humpherson

# YMCHWILIAD SENEDD CYMRU – EFFAITH COVID-19, A'R MODD Y MAE'N CAEL EI REOLI, AR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

## Data i ategu penderfyniadau sy'n ymwneud â'r pandemig COVID-19

1. Mae'n bwysig bod data sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 a'r modd y mae'n cael ei reoli ar gael fel y gellir gwneud penderfyniadau effeithiol ar sut i reoli effaith y feirws ac arwain Cymru allan o'r pandemig.
2. Drwy gydol y pandemig, mae'r OSR wedi parhau i fonitro datblygiad data sy'n ymwneud â'r pandemig a'i effaith. Rydym wedi ymyrryd ag adrannau ledled y Deyrnas Unedig lle rydym wedi gweld bod angen gwelliannau yn y data a'r ystadegau y maent wedi'u cynhyrchu.
3. Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd datganiad gennym<sup>1</sup> yn amlinellu pwysigrwydd rhannu data mewn ffordd sy'n hybu tryloywder ac eglurder. Amlinellodd hyn bwysigrwydd y data y mae llywodraethau'n ei ddyfynnu mewn datganiadau a phwysigrwydd briffiadau sy'n hygyrch i bawb ac sydd ar gael yn brydlon.
4. Tan yn ddiweddar, doedd Llywodraeth Cymru ddim yn cyhoeddi'r sleidiau a'r dolenni i ffynonellau data i gyd-fynd â'u briffiadau coronafeirws. Yn sgil ein hymyriad ni, maen nhw bellach wedi dechrau sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael ar eu gwefan.<sup>2</sup> Mae hyn yn ddefnyddiol o ran galluogi'r rhai sydd â diddordeb i ddeall y cyd-destun a'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau Llywodraeth Cymru.
5. Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymateb yn gyflym ac wedi datblygu casgliadau data newydd<sup>3</sup> a dangosfyrddau gwybodaeth COVID-19 cyflym<sup>4</sup> i ganiatáu dealltwriaeth o'r pandemig yng Nghymru. Yn ychwanegol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi papur yn edrych ar ffactorau risg ar gyfer achosion o COVID-19 mewn cartrefi gofal ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty.<sup>5</sup>
6. Mae ymchwil o'r math hwn yn hanfodol er mwyn helpu i ddeall effaith arferion yn gynnar yn y pandemig ac i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Mae'n bwysig deall cryfderau a chyfyngiadau ymchwil o'r fath. Er hynny, mae hefyd yn bwysig bod yn glir bod llawer o'r dystiolaeth yn ei babandod ac y bydd yn dal i fagu cryfder a phwysau wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg. Er ein bod yn croesawu gwaith o'r math hwn i ddatblygu'n dealltwriaeth o'r pandemig a'i effeithiau, rydym hefyd yn annog pawb i fod yn ofalus wrth seilio penderfyniadau ynghylch arferion y dyfodol ar ganfyddiadau cynnar.
7. Wrth i'r brechlyn cyntaf i amddiffyn rhag COVID-19 gael ei gyflwyno, mae gobeithion yn codi bod yna ffordd allan o'r pandemig o'r diwedd. Bydd yn bwysig bod ystadegau'n cael eu datblygu ar gyflwyno rhaglenni brechu a bod y rhain yn cael eu defnyddio i lywio a rheoli rhaglenni o'r fath. Rydym wedi manylu ar ein disgwyliadau ni mewn llythyr at gynhyrchwyr ystadegau sy'n gysylltiedig ag iechyd ledled y DU, a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr.<sup>6</sup> Bydd ystadegau parhaus ar nifer y bobl sydd wedi'u heintio â COVID-19 yn ein helpu yn rhannol i ddeall effeithiolrwydd y rhaglen frechu.

## Effaith y pandemig ar iechyd

8. Mae effeithiau cynnar y pandemig mewn perthynas â ffactorau fel sgrinio am ganser, gwasanaethau iechyd meddwl a llawdriniaethau dewisol wedi'u cofnodi'n dda. Bydd yr

<sup>1</sup> <https://osr.statisticsauthority.gov.uk/news/osr-statement-regarding-transparency-of-data-related-to-covid-19/>

<sup>2</sup> <https://gov.wales/slides-and-datasets-coronavirus-briefings>

<sup>3</sup> [https://gov.wales/statistics-and-research?field\\_policy\\_areas%5B980%5D=980](https://gov.wales/statistics-and-research?field_policy_areas%5B980%5D=980)

<sup>4</sup> <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

<sup>5</sup> <https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.08.24.20168955v1.full.pdf>

<sup>6</sup> <https://osr.statisticsauthority.gov.uk/correspondence/ed-humpherson-to-producers-of-health-related-statistics-across-the-uk-statistics-to-monitor-the-uks-covid-19-vaccination-programme/>

effeithiau tymor hirach yn eang a dim ond dros nifer o flynyddoedd y byddant yn dod i'r amlwg. Bydd yr effeithiau hyn yn amrywio ar draws ieched corfforol a meddyliol a bydd ffactorau fel penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd ehangach ffactorau risg ieched ac ymddygiad, megis ysmegu, deiet ac yfed alcohol yn dylanwadu ar y rhain hefyd.

9. Bydd hi'n bwysig bod data cynhwysfawr ar gael i ganiatáu monitro'r ystod eang hon o ffactorau, fel bod effaith ehangach y pandemig yn cael ei deall yn llawn, ac fel y gellir rhoi polisïau ac arferion effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol. Mae Public Health England wedi datblygu offeryn monitro i asesu effeithiau ehangach COVID-19 ar ieched.<sup>7</sup> Rydym yn argymhell y dylai dull tebyg gael ei fabwysiadu yng Nghymru.

### **Effaith y pandemig ar ofal cymdeithasol**

10. Yn 2018-19, fe gynhalion ni adolygiad o ystadegau gofal cymdeithasol i oedolion ledled y DU.<sup>8</sup> O gofio natur ddatganoledig gofal cymdeithasol i oedolion, edrychodd yr adolygiad ar faterion ystadegol ym mhob un o'r pedair gwlad ar wahân. Tanlinellodd ein hymchwil nad yw gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei fesur na'i reoli mor agos â gofal ieched, a bod diffyg cyllid wedi arwain at danfuddsoddi a diffyg adnoddau mewn data a dadansoddi. At hynny, roedd cyflwyno system casglu data newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at lefelau amrywiol o ansawdd data o fewn ac ar draws yr awdurdodau lleol.
11. Yn 2019, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gyhoeddiad newydd ar Weithgareddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<sup>9</sup> Roedd yr wybodaeth yn y datganiad hwn yn cynnwys amryw o feysydd yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, ac roedd gan yr ystadegau ystod o ddefnyddwyr gan gynnwys gweinidogion yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Ieched Cymru, ac elusennau.
12. Ym mis Mawrth 2020, adolygwyd casgliadau data, gwaith ymchwil ac allbynnau Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Cafodd y casgliadau data y seiliwyd y datganiad ystadegol hwn arnynt eu hatal ar gyfer 2019-20, sy'n golygu na fydd cyhoeddiad wedi'i ddiweddarau ar gael am y flwyddyn adrodd hon.
13. Y bwriad ar hyn o bryd yw aildechrau casglu data ar gyfer blwyddyn adrodd 2020-21, ond mae'n debygol y bydd yr awdurdodau lleol sy'n darparu'r data yn dal o dan bwysau arwyddocaol, sy'n golygu y gallai ansawdd y data a gyflwynant gael ei beryglu. Mae yna risg o hyd hefyd y bydd cyhoeddi ystadegau allweddol yn cael ei ohirio neu ei atal ymhellach tra bo'r pandemig yn parhau.

### **Y SWYDDFA REOLEIDDIO YSTADEGAU, RHAGFYR 2020**

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/wider-impacts-of-covid-19-on-health-monitoring-tool>

<sup>8</sup> <https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/systemic-review-outline-adult-social-care/>

<sup>9</sup> <https://gov.wales/social-services-activity-april-2018-march-2019>